

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos  
Fawrth, 1af Mehefin 2021 yn Ffestri  
Capel Siloh, Llanon**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 7:30 pm on Tuesday, 1<sup>st</sup> June  
2021 at the Siloh Chapel Vestry, Llanon**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Phil Tomlins; y  
Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes,  
Lowri Jones, Dennis Morgan, Andrew  
Phillips, Gwenno Piette, a Bryan  
Tomlins.

Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillors: Phil Tomlins  
Councillors Sheila Davies, Jim Hughes,  
Lowri Jones, Dennis Morgan, Andrew  
Phillips, Gwenno Piette and Bryan  
Tomlins.

County Councillor Dafydd Edwards  
Denfer Morgan (Clerk)

**660 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lodwick  
Lloyd ac Aled Roberts am fethu a bod  
yn bresennol yn y cyfarfod.

**660 Apologies**

Councillors Lodwick Lloyd and Aled  
Roberts apologised for their inability to  
attend the meeting.

**661 Cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a  
gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2021**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod  
Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar  
4ydd Mai 2021 fel rhai cywir,

**661 Minutes of the Annual Meeting of the  
Council held on 4<sup>th</sup> May 2021**

The Minutes the Meeting of the Council  
held on 4<sup>th</sup> May 2021 were confirmed as  
being a correct record.

**662 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a  
gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2021**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r  
Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2021  
fel rhai cywir.

**662 Minutes of the Monthly Meeting held  
on 4<sup>th</sup> May 2021**

The Minutes the Meeting of the Council  
held on 4<sup>th</sup> May 2021 were confirmed as  
being a correct record.

**663 Materion yn codi o'r Cofnodion**

Cofnod 649 – roedd ffrâm y cylchoedd  
pel fasedged wedi 'u gosod wyneb i waered  
ac y byddent yn cael sylw gan y  
Cynghorydd Andrew Phillips.

**663 Matters arising from the Minutes**

Minute 649 – the basketball hoops frame  
had been installed upside down and would  
be attended to by Councillor Phillips.

**664 Archwiliad Misol**

Adroddodd y Cynghorydd Sheila Davies  
ar y materion canlynol:

- Nid oedd yna broblemau amlwg  
gyda'r cyrtiau tenis a maes  
parcio'r Waun
- Roedd angen chwynnu'r man  
eistedd
- Roedd y lle chwarae yn edrych yn  
iawn a dywedodd y Cynghorydd  
Phil Tomlins ei fod wedi rhoi saem

**664 Monthly Inspection**

Councillor Sheila Davies reported on the  
following matters:

- There were no apparent problems  
with the tennis courts and Waun car  
park
- The seating area needed weeding
- The playground looked fine and  
Councillor Phil Tomlins stated that  
he had greased equipment the  
previous week and that painting

ar y cyfarpar yr wythnos flaenorol ac y byddai'r gwaith o baentio yn digwydd cyn bo hir.

would be arranged soon.

### 665 Y Chalet

Rhodddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa diweddaraf. Nodwyd gyda phleser fod y gwaith o godi'r adeilad wedi'i gwblhau a bod y chalet newydd eisoes yn cael ei ddefnyddio a bod canmoliaeth wedi'i dderbyn.

Trafodwyd gan yr Aelodau y trefniadau posib ar gyfer seremoni agoriadol. Cytunwyd taw digwyddiad a oedd yn agored i bawb dylai hwn fod ac nid i wahoddedigion yn unig. I'r perwyl hynny, yng nghyd-destun cyfyngiadau parhaol Covid, cytunwyd i ohirio unrhyw ddigwyddiad tan gwyliau haf yr ysgolion.

Roedd y materion eraill a drafodwyd yn cynnwys:

- Bendithiad gan y Ficer
- Rhostio mochyn a dewisiadau llysieuiol / fegan
- Argraffu lluniau a phrintiadau a gynigiwyd ar aliminiwm
- Y posibilrwydd o blaciau coffa yn cael eu gados yn y muriau mewnol yn lle ar feinciau
- Dod o hyd i leoliad parhaol ar gyfer y 'neidr'.

### 666 Meinciau

Yn dilyn y tradodaethau blaenorol, **PENDERFYNWYD** bwrw mlaen i gael gafael ar y canlynol:

- dau fainc 'Sandringham' wedi'u gwneud o ddefnydd wedi'u ailgylchu ar gyfer y llain
- un fainc 'Sandringham' ar gyfer y darn o dir rhwng y man chwarae a'r cae peldroed
- un sedd amryliw ar gyfer y lle chwarae.

### 667 Y Lle Chwarae

Dywedwyd y Clerc fod Ysgrifennydd Pwyllgor Neudd Bentref a Chae

### 665 The Chalet

Consideration was given to the up-to-date position. It was noted with pleasure that construction was complete and that the new chalet was already being used and compliments had been received.

Members discussed possible arrangements for an opening ceremony. It was agreed that it should be an open event and not by invitation only. To this effect, in the context of continuing Covid restrictions, it was agreed to delay any event until the school summer holidays.

Other matters to be considered included;

- A blessing by the local Vicar
- Pig roast and vegetarian / vegan choices
- Printing pictures offered onto aluminium
- The possibility of memorial plaques being placed on the interior walls instead of on benches
- Finding a permanent location for the pebble 'snake'.

### 666 Benches

Further to previous discussion, it was **RESOLVED** to proceed to obtain the following:

- two 'Sandringham' benches made of recycled material for the slang
- one 'Sandringham' bench for the land between the playground and the football field
- one multi-coloured seat for the playground.

### 667 Playground

The Clerk reported that the Secretary of the Village Hall and Playing Field

Chwarae Llanon wedi cadarnhau derbyn cais y Cyngor i ystyried trosglwyddo'r tir yn ffinio gyda'r lle chwarae er mwyn ei ymestyn ar gyfer lleoli cyfarpar ymarfer ac y byddai'n cael ei ddwyn gerbron cyfarfod nesa'r Pwyllgor.

Tra ei fod yn cael ei dderbyn y byddai angen prynu'r cyfarpar mwyaf drud yn raddol dros gyfnod o amser, cytunwyd y gellid prynu twnnel newydd cyn gynted a phosib ac i ofyn am gyngor Wicksteed ar hwn pan y gwneir yr archwiliad statudol blynyddol cyn bo hir.

**668 Llwybrau Cyhoeddus**

Dywedodd y Cyngorydd Sheila Davies y gwnaed yr ail doriad ar 15fed Mai. Cytunwyd canfod os oedd llwybr 33/8 a pedd yn arwain o Lain Prysg wedi'i rwystro gan weiran bigog. Roedd weiran bigog ar lwybr Neuadd yr Eglwys o hyd. Cytunwyd gofyn am osod arwydd ar ddechrau llwybr 33/6 sy'n arwain o Benlon.

**669 Materion Ariannol – Talu Anfonebau PENDERFYNWYD fel a ganlyn:**

i) talu'r canlynol:

Vision ICT (Uwchraddio Gwefan y Cyngor) - £585  
BHIB (Adnewyddu Yswiriannau) - £435.17  
Capel Siloh – (ffi) £15

*Codi'r chalet:*

Emyr Harries (llafur a defnyddiau) £11,141.74  
Dan Lewis (ramp) - £220  
Bryan Tomlins (brackets) - £15

*Cyflog y Clerc (Ebr-Mai-Meh):*

Denfer Morgan - £636.48  
CThEM (TWE) - £159.12

**670 Cyfrifon Blynyddol 2020-21**  
Dywedodd y Clerc fod yr Archwilydd

Committee had acknowledged receipt of the Council's request to transfer the adjoining piece of land in order to extend the playground to site exercise equipment, and that it would be reported to the next meeting of the Committee.

Whilst it was accepted that there would be a need to phase the purchase of the expensive items of equipment over a period of time, it was agreed that a replacement tunnel could be obtained as soon as possible and to seek the advice of Wicksteed on this when the annual statutory inspection would be undertaken shortly.

**668 Public Footpaths**

Councillor Sheila Davies reported that the second cut had been undertaken on 15<sup>th</sup> May. It was agreed to investigate whether footpath 33/8 leading from Lain Prysg had been blocked off by barbed wire. There was still barbed wire on the Church Hall footpath. It was agreed to request a sign at the start of footpath 33/6 leading from Penlon.

**669 Finance Matters**

It was **RESOLVED** as follows:

i) to pay the following:

Vision ICT (Upgrade of Council Website) - £585  
BHIB (Insurances Renewal) - £435.17  
Capel Siloh (fee) - £15

*Chalet construction:*

Emyr Harries (labour and materials) £11,141.74  
Dan Lewis (ramp) - £220  
Bryan Tomlins (brackets) - £15

*Clerk's Salary (Apr-May-June):*

Denfer Morgan - £636.48  
HMRC (PAYE) - £159.12

**670 2020-21 Annual Accounts**  
The Clerk reported that the Internal

Mewnol wedi archwilio Cyfrifon Blynyddol 2020-21 a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2020-21 a'u hafnon ymlaen at Archwilio Cymru.

Dyweddodd y Clerc y byddai'n debygol fod Archwilio Cymru yn dweud fod yr arian wrth efn yn rhy uchel.

Cytunwyd edrych mewn i'r posibilrwydd o gyflogi, ar y cyd gyda Chynghorau eraill, swyddog datblygu a fyddai â'r dasg o ddod o hyd i ffynonellau grantiau i gyllido prosiectau lleol.

- 671 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2021-22**  
Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2021 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun isod ar gyfer 2021-22:-

*Lwfansau a gynhwysir yn y Cynllun*

Penderfyniad 41 – Costau gofal  
Penderfyniad 42 – Cyfraniad at gostau a threuliau  
Penderfyniad 45 – Costau teithio

*Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun*

Penderfyniad 44 – Taliad cyfrifoldebau penodol  
Penderfyniad 46 – Taliad cynhaliaeth  
Penderfyniad 47 – Taliad colled ariannol  
Penderfyniad 48 – Taliad Pennaeth Dinesig  
Penderfyniad 49 – Taliad Dirprwy Pennaeth Dinesig

- 672 Cynllun Grant Cymunedol Wales and West**  
**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynlluniau isod am gymorth:  
Stand ar gyfer beiciau ar y Waun  
Plannu blodau gwylltion  
Sylfaen goncrid ar gyfer y fainc ger y man chwarae  
Hysbysfwrdd ger Cylch Peris

Auditor had audited the 2020-21 Annual Accounts and it was **RESOLVED** to approve the 2020-21 Annual Accounts and to forward them to Audit Wales.

The Clerk stated that Audit Wales would probably advise that the Council's reserves were too high.

It was agreed to explore, with other Councils, the possibility of employing a development officer tasked with identifying grant funding for local projects.

- 671 Members Payments Scheme for 2021-22**  
Consideration was given to the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales dated February 2021 and it was **RESOLVED** to adopt the following Scheme for 2021-22:-

*Allowances Included in the Scheme*

Determination 41 – Care costs  
Determination 42 – Payment towards costs and expenses  
Determination 45 – Travel costs

*Allowances Not Included in the Scheme*

Determination 44 – Specific responsibilities payment  
Determination 46 – Subsistence payment  
Determination 47 – Financial loss allowance  
Determination 49 – Civic Head's payment  
Determination 50 – Deputy Civic Head's payment.

- 672 Wales and West Community Grant Scheme**  
It was **RESOLVED** to recommend the following schemes for support:  
Bike stand at y Waun  
Planting of wildflowers  
A concrete base for the bench near the playground  
A noticeboard at Cylch Peris.

**673 Y Ddarpariaeth Parcio yn Llanon**  
Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt gychwyn trafodaethau ar gyfer y defnydd posib o'r darn o dir i'r de i Hafan yr Efail fel maes parcio ar gyfer y gymuned a chafwud cadarnhad ei fod wedi cael ei dderbyn. Dywedodd y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards ei fod ynghlwm â'r trafodaethau mewnol.

**674 Unrhyw fater cymwys arall**

- a) Cytunodd y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards ddod o hyd i berchennog y 'Parc Natur' yn Llanon ac i drefnu ei fod yn cael ei glirio, os ym mherchnogaeth y Cyngor Sir.
- b) Gofyn i'r Clerc holi am y rhewswm fod yna fwch o ryw 3m rhwng y ffens presennol sy'n rhedeg ar hyd Cylch Peris a'r ffens newydd sydd ar ffin y stad newydd.
- c) Cytunwyd trefnu casgliad sbwriel cyn bo hir.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30pm

**673 Parking Provision in Llanon**  
The Clerk reported that he had contacted the County Council requesting it to commence discussions on the possible of the use of the land to the south of Hafan yr Efail as a community car park and that an acknowledgement had been received. County Councillor Dafydd Edwards stated that he was involved in the internal discussions.

**674 Any Other Competent Business**

- a) County Councillor Dafydd Edwards agreed to ascertain the ownership of the Nature Park in Llanon and arrange for its clearing, if owned by the County Council.
- b) To request the Clerk to ascertain the reason for a gap of some 3m between the existing fence running alongside Cylch Peris and the new boundary fence for the new estate.
- c) It was agreed to arrange a litter pick soon.

The meeting concluded at 9:30pm